O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 1418 (Cy. 368)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru o dan baragraffau 6B, 6C a 6D o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch y trefniadau y mae rhaid i awdurdod lleol eu gwneud i ddarparu cyngor a gwybodaeth ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion i ddisgyblion anabl a'u cyfeillion achos.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi personau annibynnol i hwyluso datrys anghydfodau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi personau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol anabl.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1418 (Cy. 368)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021

*Gwnaed* *13 Rhagfyr 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru 14 Rhagfyr 2021*

*Yn dod i rym* *5 Ionawr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau ym mharagraffau 6B(3), 6C(4) a 6D(4) o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Ionawr 2022.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “Deddf 2010” yw Deddf Cydraddoldeb 2010.

(4) Mae i eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn y Rheoliadau hyn sy’n cyfateb i eiriau ac ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Neddf 2010 yr un ystyr â’r geiriau a’r ymadroddion hynny yn y Ddeddf honno, ac eithrio i’r graddau yr ymddengys bwriad i’r gwrthwyneb.

**Cyngor a gwybodaeth**

**2.**—(1) Wrth wneud trefniadau o dan baragraff 6B(1) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010 i ddarparu cyngor a gwybodaeth i ddisgyblion ysgol anabl yn ei ardal, ac i gyfeillion achos(**2**) disgyblion o’r fath, rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod y cyngor a’r wybodaeth

(**1**) 2010 p. 15.

(**2**) Mae paragraff 6A o Atodlen 17 i Ddeddf 2010 yn darparu ar gyfer penodi cyfeillion achos.

hefyd yn cael eu darparu i rieni disgyblion ysgol anabl yn ei ardal.

(2) Rhaid i'r trefniadau ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor a'r wybodaeth gynnwys y canlynol—

(a) hawliau disgyblion ysgol anabl o dan Ddeddf 2010 sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion,

(b) dyletswyddau'r awdurdod lleol o dan Ddeddf 2010 sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion,

(c) sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghydfodau,

(d) sut i gael mynediad at wasanaethau eirioli annibynnol, ac

(e) sut i ddod â hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru.

(3) Rhaid i'r trefniadau sicrhau bod y cyngor a'r wybodaeth—

(a) yn glir, yn ffeithiol ac yn gywir, a

(b) yn cael eu cadw'n gyfredol.

**Datrys anghydfodau**

**3.** Cyn penodi person at ddibenion paragraff 6C(2) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010, rhaid i awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod y person y mae'n bwriadu ei benodi—

(a) yn ddigon gwybodus ynghylch pwnc Pennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010, a

(b) yn annibynnol ar yr awdurdod lleol a'r personau sy'n ymwneud ag unrhyw anghydfod.

**Gwasanaethau eirioli annibynnol**

**4.**—(1) Cyn gwneud trefniadau â darparwr at ddibenion paragraff 6D o Atodlen 17 i Ddeddf 2010, rhaid i awdurdod lleol fod wedi ei fodloni—

(a) bod y darparwr yn ddigon gwybodus ynghylch pwnc Pennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010,

(b) bod y darparwr yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen i gyfathrebu'n effeithiol â disgyblion ysgol anabl, gan gynnwys y rheini sydd ag anawsterau cyfathrebu,

(c) nad yw'r darparwr ar y rhestr wahardd ar gyfer plant, neu, yn achos darparwr sy'n gweithio gyda phobl ifanc, y rhestr wahardd ar gyfer oedolion, a

(d) y bydd y darparwr yn cadw cofnodion cyfrinachol o'r gwasanaethau a ddarperir o dan y trefniant.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) ystyr “darparwr” yw person sy’n darparu gwasanaethau eirioli annibynnol,

(b) ystyr “rhestr wahardd ar gyfer plant” a “rhestr wahardd ar gyfer oedolion” yw’r rhestrau a gynhelir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o dan adran 2 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**).

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
13/12/2021

(**1**) 2006 p. 47.